# Crynodeb cynllun busnes 2012-13

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno'r mesurau, deilliannau a rhaglenni allweddol mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn anelu i'w cyflawni yn ystod 2012-13.

**Ebrill 2012**

# Rhagair gan y prif weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno cynllun busnes y DSA ar gyfer 2012-13.

Yn ogystal â chyflawni ein gofynion statudol mewn modd effeithiol, effeithlon ac economaidd, bydd nifer o heriau o'n blaenau yn 2012-13.

Fel asiantaeth weithredol i'r Adran Drafnidiaeth, byddwn yn cyfrannu i agenda ehangach y llywodraeth. Mae'r Papur Gwyn Gwasanaethau Cyhoeddus Agored yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn sefydlu pum egwyddor allweddol i lywodraethu eu cyflawniad. Am ragor o fanylion dilynwch y ddolen hon:
www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/open-public-services-white-paper.
Y pum egwyddor allweddol yw:

- **dewis** – cynyddu dewis ble bynnag fo'n bosibl
- **datganoli** – dylid datganoli grym i'r lefel isaf sy'n briodol
- **amrywiaeth** – dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn agored i ystod o ddarparwyr
- **tegwch** – dylai mynediad at wasanaethau cyhoeddus fod yn deg
- **atebolrwydd** – dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn atebol i ddefnyddwyr a threthdalwyr.

Byddwn yn adolygu ein darpariaeth gwasanaeth i sicrhau ein bod yn bodloni a chyflawni yn erbyn egwyddorion y Papur Gwyn.

Nod y DSA yw bod y brif ffynhonnell a ymddiriedir o wybodaeth yn ymwneud ag ysgogi ac arwain safonau ym Mhrydain Fawr, a byddwn yn ymdrechu i gynnig y gwasanaeth cyhoeddus gorau y gallwn.

Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth yn erbyn agenda'r llywodraeth o 'digidol yn ddiofyn', sy'n ymroi i symud gwasanaethau i gyflawniad digidol. Byddwn yn parhau i sicrhau fod yr arian a delir i ni gan gwsmeriaid yn cael ei wario yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Oherwydd lleihad mewn galw ers 2010-11, rydym wedi adolygu a lleihau costau ble bynnag fo'n bosibl ac mae'r arfer hwn yn parhau yn 2012-13.

Rydym yn cydnabod angen cwsmeriaid i deimlo'n hyderus i allu cynllunio eu dysgu a threfnu eu profion ac eisiau gwasanaeth dibynadwy. I wneud hyn, ein nod yw cael arholwyr gyda'r sgiliau cywir, yn y man cywir ar yr amser cywir, Rydym yn parhau i adolygu ble rydym yn cyflawni profion ar draws tair ffrwd benodol profion ceir, beiciau modur a galwedigaethol. Gan weithio gyda'r diwydiant hyfforddiant beiciau modur,

byddwn hefyd yn adolygu sut a ble rydym yn cyflawni profion beiciau modur er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion ein cwsmeriaid.

Yn rhan o wella diogelwch ffordd, bwriadwn lansio ymgynghoriad ar foderneiddio'r diwydiant hyfforddi gyrwyr a beicwyr yn ystod haf 2012-13.

Byddwn yn gweld cynnydd ar adnewyddu'r prawf dehongli perygl, a gweithredu trefniadau newydd i gyflawni'r cynllun adsefydlu yfed a gyrru a fydd yn cychwyn ym mis Hydref 2012.

Yn Ionawr 2013 gwelir cyflwyniad trydedd gyfarwyddeb yr UE, sy'n ceisio gwella diogelwch ar y ffyrdd, gwella diogelwch y drwydded yrru ac unioni categorïau trwydded i hwyluso symudiad rhydd ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r gyfarwyddeb yn cyflwyno isafswm maen prawf cymhwyster cychwynnol a hyfforddiant cyfnodol gorfodol ar gyfer arholwyr gyrru. Mae'r DSA eisoes yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r gofynion hyn a bydd yn parhau i sicrhau bod arholwyr yn gallu cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i gynnal a diwygio eu sgiliau.

Byddwn yn parhau i weithio ar leihau ein hallyriadau carbon yn 2012-13 wedi mewnosod ein cynllun rheoli carbon yn llawn i nifer o'n prosesau rheoli a chyfundrefnau cynnal a chadw eiddo.

Rydym yn parhau i fod yn ddibynnol ar ymdrechion ac ansawdd ein staff i gyflawni'r agenda uchelgeisiol hwn. Rydym yn adeiladu ar waith cyfredol i ddatblygu gwell ymgysylltiad gyda phob maes o'n gweithlu, ac rwy'n hyderus y byddwn, gyda'n gilydd, yn cael blwyddyn lwyddiannus arall.

**Rosemary Thew**
**Prif Weithredwr**

# Pwy ydyn ni, beth ydyn ni'n wneud, ein cenhadaeth

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (DSA) yn asiantaeth weithredol yn yr Adran Drafnidiaeth. Ein cenhadaeth yw **Gyrru Diogel am Oes™** ac i gefnogi hyn wrth symud ymlaen byddwn yn:

- bod yn rheolydd effeithiol ac effeithlon. Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr, yn yr Adran a mannau eraill, i ddatblygu a gweithredu polisi sy'n dylanwadu ar ymddygiad gyrwyr a beicwyr i gefnogi a gwella diogelwch ffordd ym Mhrydain Fawr.
- parhau i ddatblygu, cyhoeddi a gwella Safonau Gyrru a Beicio seiliedig ar dystiolaeth, Safonau Hyfforddi Gyrwyr/Beicwyr a Safonau ar gyfer rhaglenni adferol megis adsefydlu yfed a gyrru
- parhau i adolygu a datblygu ein profion gyrru a beicio a'r modd mae hyfforddwyr gyrru a beicio wedi eu hyfforddi ac asesu i roi gwell adlewyrchiad a chyflawni cynnwys y Safonau hynny
- cyflawni a chynnal profion gyrru ac asesiadau yn deg, yn gyfartal ac yn effeithiol
- bodloni ein rhwymedigaethau fel asiantaeth o'r llywodraeth yn cyflawni gwasanaethau ar ran llywodraeth ganolog, ac fel rhan o deulu'r Adran Drafnidiaeth
- rhedeg y sefydliad sydd ei angen i wneud y pethau hyn yn effeithiol ac effeithlon, gyda'r bobl iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn a gyda'r sgiliau a systemau priodol i'w cefnogi
- cefnogi Fframwaith Strategol Diogelwch Ffordd y llywodraeth ac alinio gyda Chynllun Busnes yr Adran Drafnidiaeth.

Mae'r cynllun hwn yn sefydlu'r mesurau, deilliannau a rhaglenni allweddol mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn gobeithio cyflawni yn ystod 2012-13. Rydym yn cyfrannu i Gynllun Busnes 2010-15 yr Adran Drafnidiaeth a gellir dod o hyd i hyn yn: www.dft.gov.uk/about/publications/business/plan2011-15/pdf/plan2011-2015.pdf

Mae'r Cynllun Busnes wedi ei ddylanwadu gan Bapur Gwyn Gwasanaeth Cyhoeddus Agored y llywodraeth.
Byddwn yn cyfrannu i fwriad y llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus ac yn cael ein tywys ac yn cydymffurfio â'r pum egwyddor allweddol hyn. Golyga hyn bod yn rhaid i ni ymdrechu i gynnig y gwasanaeth cyhoeddus gorau posibl – un sy'n ddibynadwy, cost-

effeithiol, addasadwy ac effeithlon. Rydym yn ymdrechu i fod y 'gorau yn ein dosbarth' wrth gyflawni gwasanaethau i'n cwsmeriaid yn unol â pholisi'r llywodraeth. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/open-public-services-white-paper.

Mae gennym fesurau ar y gweill ar gyfer 2012-13 a bydd y rhain yn arddangos yn glir ein hymroddiad i effeithlonrwydd, diwygio a chefnogi strategaeth TGCh a digidol y llywodraeth. Am ragor o fanylion ar y meysydd hyn, gweler tudalennau 14, 26 a 31.

Mae'r DSA yn gronfa fasnachu'r llywodraeth, wedi ei ariannu bron yn gyfan gwbl gan incwm a grëwyd trwy ffioedd ar gyfer ein gwasanaethau. Ein nod yw adennill costau ar ffioedd statudol dros gyfnod o bum mlynedd wedi cyflawni o leiaf 3.5 y cant o elw ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd.

# Mesurau perfformiad y DSA

| Mesur | Cyflawniad |
|---|---|
| **Gweithredol** | |
| I fodloni chwech o'r saith mesur gwasanaeth cwsmeriaid a gyflwynir isod. | Erbyn 31 Mawrth 2013 |
| **Argaeledd prawf theori**<br>1) cynnig apwyntiad i ymgeiswyr yn eu canolfan prawf theori ddewisol o fewn pythefnos i'w dyddiad dewisol<br>2) cadw 99.5% o apwyntiadau profion theori | <br>95%<br><br>99.5% |
| **Argaeledd prawf ymarferol**<br>3) cynnig apwyntiad o fewn naw wythnos mewn canolfannau profion gyrru<br>4) cadw 98% o apwyntiadau profion ymarferol sydd yn eu lle dridiau cyn y prawf | <br>90%<br><br>98% |
| **Achrediad gwasanaeth cwsmeriaid**<br>5) cadw'r wobr Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid<br>6) cadw Achrediad Canolfan Cyswllt<br>**Ymateb y ganolfan gyswllt**<br>7) ateb 70% o alwadau ffôn o fewn 30 eiliad | <br>31 Mawrth 2013<br>31 Mawrth 2013<br><br>70% o fewn 30 eiliad |
| **Boddhad cwsmeriaid**<br>▪ gwella boddhad cwsmeriaid i ymgeiswyr<br>▪ gwella boddhad cwsmeriaid i gwsmeriaid busnes | Gwelliant pwynt 5% ar allbwn 2011-12 ar gyfer ymgeiswyr a chwsmeriaid busnes |
| **Cyllid ac effeithlonrwydd** | |
| **Cyllid asiantaeth**<br>▪ gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach<br>▪ cyflawni perfformiad ariannol yn unol â'r Cynllun Busnes | £2m<br>£2m gwarged |
| **Gweithlu**<br>▪ sicrhau lleoliad effeithiol staff o fewn set cyflenwi'r cynllun busnes ar gyfer 31 Mawrth 2013<br>▪ sicrhau'r nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith a gollir oherwydd absenoldeb salwch<br>▪ cyflawni defnydd gan arholwyr gyrru | 2,383<br>Dim mwy na 9.9 niwrnod<br>80% |

| | |
|---|---|
| **Digidol yn ddiofyn**<br>Cynyddu derbyniad gwasanaethau digidol erbyn 31 Mawrth 2013 | 85% |
| **Amddiffyn yr amgylchedd**<br>Torri allyriadau carbon gan adeiladau'r asiantaeth a defnydd busnes o gerbydau erbyn 31 Mawrth 2013 | Lleihad o 15% yn erbyn llinell sylfaen 2009-10 |
| **Diwygio** | |
| **Trydedd gyfarwyddeb yr UE**<br>Bydd y DSA yn cydymffurfio â gofynion trydedd gyfarwyddeb trwydded yrru'r UE erbyn y dyddiad gweithredu penodedig o 19 Ionawr 2013:<br>▪ bydd y DSA yn gweithredu'r holl newidiadau system sydd eu hangen i gyflawni cydymffurfiad<br>▪ bydd rhaglen hyfforddiant arholwyr wedi cychwyn | 19 Ionawr 2013<br>Rhaglen hyfforddiant i gychwyn erbyn 31 Mawrth 2013 |
| **Gwasanaethau busnes ar-lein**<br>Gweithredu gwasanaeth digidol newydd i archebu profion busnes | Yn fyw erbyn 31 Rhagfyr 2012<br>Defnyddir gan 200 o fusnesau trefnu hyfforddwyr |
| **Cyffredin i'r holl asiantaethau gwasanaethau moduro** | |
| **Anfonebau**<br>Talu anfonebau o fewn pum niwrnod gwaith | 80% |
| **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**<br>Darparu ymateb o fewn 20 niwrnod gwaith | 93% |
| **Cwestiynau Seneddol**<br>Darparu ymateb erbyn y dyddiad disgwyliedig | 85% |
| **Gohebiaeth Aelodau Seneddol**<br>Darparu ymateb o fewn saith niwrnod gwaith | 85% |
| **Gohebiaeth swyddogol**<br>Darparu ymateb o fewn 20 niwrnod gwaith | 80% |

## Cyflwyniad

Roedd y nifer o bobl gafodd eu lladd neu anafu'n ddifrifol yn 2010 naw y cant yn is nag yn 2009 ar 24,510, gan barhau gyda'r tuedd diweddar o welliant. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant hwn, mae'n allweddol ein bod yn ymdrechu i wella sgiliau gyrwyr sydd newydd gymhwyso er mwyn sicrhau hyd yn oed mwy o ostyngiad.

## Cyffredinol

Mae Fframwaith Strategol Diogelwch Ffordd yr Adran Drafnidiaeth yn gosod cyfrifoldeb ar y DSA i osod y safonau cenedlaethol ar gyfer gyrru diogel a chyfrifol ac i sicrhau bod unrhyw ymyriadau yn ymwneud â gyrru yn cysylltu i'r safonau hynny. Ein nod yw bod y brif ffynhonnell a ymddiriedir o wybodaeth yn ymwneud ag ysgogi ac arwain safonau ym Mhrydain Fawr, ac felly yn ymdrechu i ddylanwadu ar feddwl positif o ran ymddygiad gyrwyr a beicwyr.

Yn ystod 2012-13 rydym yn bwriadu cyflawni 1.5 miliwn o brofion theori ceir a tua 1.6 miliwn o brofion ymarferol ceir.

Yn unol â Phapur Gwyn y llywodraeth ar Wasanaethau Cyhoeddus agored, byddwn yn parhau gyda'n profion i archwilio ymagweddau newydd i gyflawni profion yn 2012-13. Dilynwch y ddolen ganlynol: http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/open-public-services-white-paper

## Dysgu gyrru

Mae'r rhaglen yn ceisio gweithredu ystod o fentrau, fel y cytunwyd gyda Gweinidogion, sy'n canolbwyntio ar foderneiddio'r diwydiant hyfforddi gyrwyr a beicwyr a gwella diogelwch ffordd. Yn ystod 2012-13 rydym yn bwriadu lansio ymgynghoriad ar gynigion i foderneiddio'r diwydiant gyrwyr a beicwyr, a symud ymlaen â'r diwygiad o'r prawf dehongliad o berygl. Byddwn hefyd yn gwireddu canlyniadau'r prawf dysgu gyrru ac yn gwneud argymhellion ar sut ddylid dwyn y casgliadau ymlaen i gefnogi gwelliannau mewn hyfforddiant ac addysg i yrwyr.

## Cynllun adsefydlu yfed a gyrru

Yn unol ag ymrwymiadau a sefydlwyd yn Fframwaith Strategol yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer Diogelwch Ffordd, bydd y DSA yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno proses gymeradwyo a sicrwydd newydd ar gyfer cyrsiau cynlluniau adsefydlu yfed a gyrru. Bydd hyn yn gwella ansawdd a chysondeb cyrsiau a gynigir i droseddwyr yfed a gyrru wrth drosglwyddo cost y cynllun o'r trethdalwr i'r troseddwr – yn gyson â'r egwyddor 'y defnyddiwr sy'n talu'.

## Cyflawniad profion

Mae gweithrediadau a chyllid y DSA yn ddibynnol ar y nifer o ymgeiswyr sy'n cymryd profion. Rydym yn defnyddio dau derm trwy gydol y ddogfen hon:

- **galw** – y nifer o geisiadau am brawf

- **llif** – y nifer o brofion a gyflawnir, yn cynnwys y nifer sydd wedi eu fforffedu gan ymgeiswyr (ble maent wedi methu mynychu prawf neu wedi canslo eu hapwyntiad gyda llai na thridiau o rybudd).

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau o ganlyniad i'r cyfnod amser rhwng archebu a chymryd prawf. Rydym yn ennill ffi pan fyddwn yn cyflawni prawf, nid ar dderbyn y ffi.

Yn haf 2012 fe gynhelir Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain. Rydym wedi bod yn cynllunio ers sawl mis er mwyn lleihau amhariad i gyflawniad profion, gan gefnogi blaenoriaethau allweddol y llywodraeth ac adrannol o leihau teithiau yn Llundain yn ystod cyfnod allweddol y Gemau a chefnogi cyflawniad llwyddiannus y digwyddiad chwaraeon mwyaf mewn cenhedlaeth.

### Ceir

| Ceir | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Prawf theori – galw | 1,506,000 | 1,545,000 | 1,500,000 |
| Prawf theori – llif | 1,482,000 | 1,542,000 | 1,500,000 |
| Prawf ymarferol – galw | 1,668,000 | 1,580,000 | 1,560,000 |
| Prawf ymarferol – llif | 1,669,000 | 1,604,000 | 1,562,000 |

## Lefelau galw

Disgwylir i alw am brofion ymarferol yn 2012-13 fod yn is na lefelau 2011-12 oherwydd parhad cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn y gyfradd basio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae yna risg y gallai galw fod yn uwch nag y bwriadwyd os yw'r ymgeiswyr hynny a gofrestrodd i gymryd eu prawf theori cyn y newidiadau yn Ionawr 2012 yn dod ymlaen i brawf ymarferol yn 2012-13; neu os na wireddir y cynnydd tybiedig yng nghyfradd basio'r prawf ymarferol.

## Prawf theori

Mae'r DSA yn parhau i weithio i gadw'r prawf theori yn gyfredol ac rydym yn parhau gyda datblygiad asesiadau damcaniaethol i gynnwys cwestiynau newydd ac astudiaethau achos. Bwriadwn gynyddu defnydd o ddelweddau cyfrifiadurol fel dewis amgen i fideo ar gyfer elfen dehongli perygl y prawf theori.

O hydref 2012, byddwn yn cyflwyno gwasanaethau gwe gwell i wella'r broses o archebu prawf theori. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddewis apwyntiadau profion a chydymffurfio'n llawn gyda gofynion hygyrchedd y llywodraeth.

Mae'r contract presennol ar gyfer cyflawni'r prawf theori yn dod i ben yn 2014. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn gwahodd tendrau cystadleuol ac yn gwobrwyo'r contract newydd. Bydd hyn yn caniatáu amser i'r ymgeisydd llwyddiannus ei gweithredu, gan alluogi trosiant llyfn.

## Prawf ymarferol

Mae gweithgaredd profi craidd y DSA yn seiliedig ar brofion ymarferol. Byddwn yn mesur cyflawniad profion car ymarferol ac yn ceisio sicrhau nad yw'r amser aros cyfartalog cenedlaethol am brawf yn fwy na chwe wythnos. Byddwn hefyd yn parhau i leihau'r nifer o apwyntiadau sy'n cael eu canslo ar y funud olaf trwy ddal i weithio ar ein cynllun llwyddiannus i alluogi rheolwyr canolfannau prawf i ddefnyddio amser eu prawf yn hyblyg, ac i gyflawni profion a fyddai fel arall wedi eu canslo am nad oedd yr arholwr ar gael.

Byddwn hefyd yn edrych yn sylfaenol ar y lleoliadau ble rydym yn cyflawni profion, wedi ei hysbysu gan y treialon a gyflawnwyd ar fynd â phrofion at y gyrwyr.

**Beiciau Modur**

| Beiciau Modur | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Hyfforddiant sylfaenol gofynnol – cyhoeddi tystysgrifau hyfforddwyr | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Hyfforddiant sylfaenol gofynnol – gwerthu tystysgrifau | 188,000 | 190,000 | 200,000 |
| Prawf theori – galw | 70,000 | 75,000 | 77,000 |
| Prawf theori – llif | 64,000 | 72,000 | 77,000 |
| Prawf ymarferol modwl 1 – galw | 67,000 | 65,000 | 65,000 |
| Prawf ymarferol modwl 1 – llif | 64,000 | 68,000 | 65,000 |
| Prawf ymarferol modwl 2 – galw | 58,000 | 66,000 | 72,000 |
| Prawf ymarferol modwl 2 – llif | 55,000 | 66,000 | 73,000 |

Bydd y DSA yn ceisio sicrhau nad yw'r amser aros cyfartalog cenedlaethol ar gyfer prawf beic modur yn fwy na chwe wythnos.

Rhagwelwn dwf cymedrol mewn galw am fodylau prawf ymarferol yn 2012-13 am yr un rhesymau â'r prawf theori.

## Hyfforddiant sylfaenol gofynnol

Bydd y DSA yn parhau i sicrhau ansawdd hyfforddwyr trwy gyflawni hyfforddiant sylfaenol gofynnol. Bydd ein monitorau hyfforddiant yn cynnwys datblygu, canllaw a chefnogaeth i'r diwydiant. Bwriadwn gyflawni 750 o wiriadau yn ystod 2012-13 a byddwn yn mynd ar drywydd yr archwiliadau hynny a bennir i fod yn anfoddhaol, fel fo'n briodol.

## Adolygiad prawf beic modur

Bydd y DSA yn parhau i weithio gyda'r diwydiant hyfforddiant beiciau modur i adolygu sut a ble i gyflawni'r prawf beic modur er mwyn bod yn fwy rhagweithiol i anghenion cwsmeriaid. Byddwn yn darparu cefnogaeth weithredol i'r adolygiad dan arweiniad yr Adran Drafnidiaeth o'r prawf beic modur, a bydd canlyniadau'r ymchwil a threialon i gyflawniad amgen y prawf beic modur ar gael

yn 2012-13. Gallai hyn arwain at nifer o newidiadau arwyddocaol i'r modd y cyflawnir y prawf yn y dyfodol a byddwn yn arwain gweithrediad argymhellion cysylltiedig.

## Trydedd gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae'r DSA yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i gyflwyno gofynion trydedd gyfarwyddeb yr UE ar drwyddedau gyrru (2006/126/EC) o Ionawr 2013. Mae'r gyfarwyddeb yn ceisio gwella diogelwch ffordd, gwella diogelwch y drwydded yrru ac unioni categorïau trwyddedu lleol i hwyluso symudiad rhydd ledled yr UE.

Byddwn yn cyflwyno profion ar gyfer y categorïau beiciau modur newydd, a threfniadau cymhwyso ar gyfer mynediad cam wrth gam i feicwyr ifanc yn ymgeisio am drwydded lawn i reidio beiciau modur mwy. Bydd oed mynediad uniongyrchol i'r beiciau modur mwy yn cynyddu o 21 i 24.

**Galwedigaethol**

| Galwedigaethol | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Amlddewis/HPT LGV/PCV – galw | 40,000 | 39,000 | 39,000 |
| Amlddewis/HPT LGV/PCV – llif | 36,000 | 37,000 | 39,000 |
| Prawf ymarferol lori/bws/car a threlar (B+E) – galw | 71,000 | 74,000 | 77,000 |
| Prawf ymarferol lori/bws/car a threlar (B+E) – llif | 68,000 | 73,000 | 77,000 |

Bydd y DSA yn ceisio sicrhau nad yw'r amser aros cyfartalog cenedlaethol ar gyfer prawf ymarferol lori neu fws yn fwy na thair wythnos.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth bwcio hyfforddwr i alluogi busnesau hyfforddiant beiciau modur a galwedigaethol i archebu cyfnodau hyd at ddeg wythnos o flaen llaw ac enwi'r ymgeisydd un diwrnod gwaith clir cyn y prawf. Byddwn yn sicrhau bod holl ddefnyddwyr cofrestredig y cynllun yn ei ddefnyddio yn unol â'r trefniant archebu hyfforddwyr ac yn gwahardd y rhai sy'n camddefnyddio'r cynllun gan rwystro eraill rhag bwcio'r cyfnodau prawf maent angen.

Yn rhan o'r prosiect i newid profion galwedigaethol, bydd y DSA yn gweithio gyda'r diwydiant hyfforddi i barhau i ddatblygu safleoedd cwsmeriaid neu gyfleusterau profion amgen. Rydym yn bwriadu cynyddu'r nifer o brofion galwedigaethol a gyflawnir naill ai o eiddo hyfforddwyr neu drydydd partïon eraill. Mae safleoedd cwsmeriaid yn darparu manteision i hyfforddwyr yn ogystal â chefnogi gofynion y llywodraeth i weithredu ystâd fwy effeithiol.

## Asesiad o yrwyr tacsi

| | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Profion tacsi | 15,000 | 15,000 | 15,000 |

Mae galw am brofion tacsi yn parhau i fod yn sefydlog. Nid yw'r DSA bellach yn marchnata'r maes hwn o'n gwaith yn weithredol, er y byddai unrhyw gais am gyflawniad atodol o'r gwasanaeth hwn wedi ei fodloni.

### Ansawdd, cysondeb a chywirdeb profion

### Sicrwydd ansawdd

Bydd y Prif Arholwr Gyrru yn gosod safonau profion ac yn sicrhau ansawdd gweithgaredd profion gyrwyr, beicwyr a hyfforddwyr ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys arholwyr dirprwyedig. Mae'r DSA yn gweithio tuag at gyflawni cydymffurfiad ISO9001:2008 ar draws pob categori o brofion ac yn datblygu profion newydd mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth a sicrhau bod profion gyrwyr yn cydymffurfio â rheoliadau profion Prydain Fawr a'r Uned Ewropeaidd (UE).

Byddwn yn sicrhau fod cynnwys ar gyfer pob cwrs hyfforddiant yn ymwneud â cherbydau arholwyr yn addas i'r diben a bod y cyrsiau wedi eu cyflawni i'r safon ofynnol.

Nod trydedd gyfarwyddeb yr UE yw gwella cysondeb trwy osod isafswm safonau sy'n berthnasol i unrhyw un yn cyflawni profion gyrru ledled yr UE. Mae cyflwyno'r gyfarwyddeb yn creu gofyniad i bob arholwr gyrru gwblhau hyfforddiant cyfnodol rheolaidd.

Bydd gofyn i bob arholwr gyrru (yn cynnwys arholwyr gyrru dirprwyedig) gwblhau:

- isafswm o bum niwrnod o hyfforddiant pob pum mlynedd i ddatblygu a chynnal sgiliau gyrru ymarferol – cyflawnir hyn trwy 'gwrs diweddaru arholwr' pum niwrnod diwygiedig; ac
- isafswm o bedwar diwrnod o hyfforddiant pob dwy flynedd i gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau arholi – bydd hyn wedi ei gwmpasu gan y prosesau sicrwydd ansawdd presennol, cyfnodau datblygu personol a'r system datblygu perfformiad.

## Twyll a chywirdeb

Bydd tîm twyll a chywirdeb y DSA yn parhau i daclo achosion o amheuaeth o bersonadiad mewn profion gyrru theori ac ymarferol i atgyfnerthu ein hymroddiad i wella diogelwch ffordd.

Byddwn yn gweithio'n agosach gyda'n rhanddeiliaid allanol fel yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, llysoedd ac asiantaethau eraill y llywodraeth i leihau'r nifer o bersonadwyr. Rydym hefyd yn bwriadu cyflawni ymchwiliadau llawn o hyfforddwyr gyrru anghyfreithiol a amheuir.

Byddwn yn defnyddio ffrydiau cyfryngau priodol i hyrwyddo gwaith y tîm, a fydd yn atgyfnerthu'r neges y gall y rhai a geir yn euog o'r troseddau hyn ddisgwyl cael eu dal a'u cosbi.

## Cyhoeddiadau a deunydd dysgu

Ceisia tîm cyhoeddiadau'r DSA sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd wedi eu hysbysu ynglŷn â materion diogelwch, deddfwriaeth a gweithrediad eu busnesau. Rydym hefyd yn ceisio gwneud dysgu ac ymgysylltu yn haws i'w weithredu, gan gyfrannu i well diogelwch ffordd a

manteision economaidd system ffordd effeithiol. Rydym yn cyhoeddi'r holl ganllaw allweddol i'r safonau gyrru a beicio, yn cynnwys y "Rheolau'r Ffordd Fawr" swyddogol.

**Cofrestrau ac asesiad hyfforddiant**

| Hyfforddwr gyrru cymeradwy (ADI) | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Prawf theori ADI (Cymhwyso) – galw | 14,000 | 9,000 | 7,000 |
| Prawf theori ADI (Cymhwyso) – llif | 14,000 | 11,000 | 7,000 |
| Prawf ymarferol ADI (Cymhwyso) – galw | 23,000 | 16,000 | 12,000 |
| Prawf ymarferol ADI (Cymhwyso) – llif | 24,000 | 18,000 | 12,000 |
| Profion gwirio | 16,000 | 17,000 | 16,000 |
| Nifer ADI ar y Gofrestr | 47,000 | 45,000 | 44,000 |

Mae'r DSA yn gyfrifol am sicrhau safonau priodol hyfforddiant a chyfarwyddyd gyrwyr a beicwyr. Mae'r gweithgaredd yn cwmpasu nifer o feysydd.

## Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy

Parhaodd galw am brofion theori ac ymarferol gan Hyfforddwyr Gyrru Cymeradwy posibl i leihau yn 2011-12, a disgwyliwn weld y lleihad hwn yn parhau hyd at 2012-13 ac i'r dyfodol. Mae hyn o ganlyniad i'r nifer uchel o hyfforddwyr cymwys ynghyd â'r cyflyrau economaidd presennol yn achosi lleihad yn y nifer o bobl sy'n dymuno cael eu cynnwys ar y gofrestr.

Bwriadwn gyflawni 16,000 o wiriadau prawf ar hyfforddwyr i asesu eu gallu parhaus ac addasrwydd i roi hyfforddiant a bodloni'r Cofrestrydd o gynhaliaeth safonau priodol.

## Fflyd a chofrestrau eraill

Bydd y DSA yn parhau i gynnal a gweinyddu'r cofrestrau hyfforddwyr gwirfoddol o gerbydau nwyddau mawr (LGV), fflyd, cofrestr swyddogol o hyfforddiant hyfforddwyr gyrru (ORDIT) a'r gofrestr o hyfforddwyr beiciau modur yn dilyn prawf (RPMT). Byddwn yn adolygu statws y cofrestrau hyn yn rhan o'r cynllun i foderneiddio hyfforddiant gyrwyr a beicwyr.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiannau hyfforddi cerbydau a reoleiddir gennym, gan geisio cyflawni dealltwriaeth gilyddol a pharch, a, gyda'n gilydd, cytuno ar welliannau ac arbedion effeithlonrwydd.

## Nwyddau Peryglus

Mae yna femorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y DSA ac Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) i gyflawni hyfforddiant a phrofion cynghorydd diogelwch nwyddau peryglus a gyrwyr nwyddau peryglus. Byddwn yn parhau gyda' cyfrifoldeb i reoli'r hyfforddiant a phrofion hyn ar gyfer gyrwyr sy'n cludo nwyddau peryglus. Byddwn yn sicrhau bod yr SQA yn bodloni nifer o safonau gwasanaeth parthed yr hyfforddiant hwn.

## Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrwyr (CPC Gyrrwr)

| Gweithgaredd CPC Gyrrwr | Gwirioneddol 2010-11 | Rhagolwg 2011-12 | Cynllun 2012-13 |
|---|---|---|---|
| CPC Gyrrwr – modwl 2 – galw | 20,000 | 24,000 | 24,000 |
| CPC Gyrrwr – modwl 2 – llif | 18,000 | 23,000 | 24,000 |
| CPC Gyrrwr – modwl 4 – galw | 11,000 | 12,000 | 12,000 |
| CPC Gyrrwr – modwl 4 – llif | 10,000 | 11,000 | 12,000 |
| Oriau a gofnodwyd o hyfforddiant cyfnodol | 3,000,000 | 3,000,000 | 5,000,000 |
| Archwiliadau sicrwydd ansawdd hyfforddiant cyfnodol | 278 | 1,220 | 1,200 |

Rhaid i unrhyw yrwyr cerbydau nwyddau mawr, a gyrwyr bysus a choetsis, sydd eisiau gyrru'n broffesiynol, basio'r cymhwyster CPC Gyrrwr cychwynnol gan hefyd feddu ar y drwydded alwedigaethol briodol. Yn ogystal, rhaid i yrwyr proffesiynol gyflawni 35 awr o hyfforddiant cyfnodol pob pum mlynedd i gadw eu CPC Gyrrwr.

Mae'r DSA yn darparu a chynnal cronfa ddata i gofnodi hyfforddiant cyfnodol a gwblhawyd gan bob gyrrwr ac yn awdurdodi rhyddhau cerdyn cymhwyster gyrwyr (DQC) unwaith y bydd gyrrwr wedi cwblhau 35 awr o hyfforddiant cyfnodol. Y DQC yw'r prawf o feddiant o CPC Gyrrwr a'r hawl i yrru'n broffesiynol. O fis Medi 2013, ni fydd gan yrwyr bysus a choetsis nad ydynt wedi cyflawni CPC Gyrrwr bellach â hawl i barhau i yrru'r cerbydau hyn.

O wanwyn 2012, bydd gyrwyr yn gallu cael mynediad at gronfa ddata'r DSA, gwirio eu cofnod o hyfforddiant a'i rannu gyda chyflogwyr ar-lein. Byddwn yn parhau i gyflawni swyddogaethau rheoli, cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus rhanddeiliaid yn ymwneud â hyfforddiant CPC Gyrrwr cyfnodol (yn cynnwys y consesiwn cwrs hyfforddiant galwedigaethol cenedlaethol).

Ni yw'r awdurdod cymwys ar gyfer CPC Gyrrwr ym Mhrydain Fawr, ac rydym yn gyfrifol am gymeradwyo canolfannau a chyrsiau CPC Gyrrwr, sicrwydd ansawdd hyfforddiant cyfnodol a delio â diffyg cydymffurfiad. Yr Uned Cymeradwyaeth ar y Cyd ar gyfer Hyfforddiant Cyfnodol (JAUPT) a luniwyd gan Sgiliau Logisteg a Phobl yn Gyntaf (Cynghorau Sgiliau Sector) yw'n partner allweddol i'n cefnogi yn y rôl hon.

Nod y rhaglen sicrwydd ansawdd a gynigiwyd ar gyfer 2012/13 yw i:

- cynnal y nifer gynyddol o archwiliadau wedi eu hanelu at edrych ar ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir
- cynnal y nifer gynyddol o archwiliadau yn edrych yn benodol ar sefydliad y darparwyr hyfforddiant, er mwyn delio â diffyg cydymffurfiad posibl a nodi gweithgaredd twyllodrus posibl; a
- cynnal gallu'r DSA i ymchwilio ac ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfiad a thwyll.

# Mwy o effeithiolrwydd, gwell gwerth am arian a gweithlu wedi ei reoli'n dda

## Cyflwyniad

Mae'r DSA yn parhau i geisio dulliau o sicrhau ein bod yn effeithiol a darparu gwerth am arian.

Yn ystod 2012-13 byddwn yn parhau i chwilio am effeithlonrwydd ledled yr holl feysydd ac i hyrwyddo ymhellach y diwylliant o welliant parhaus ledled yr asiantaeth.

## Cynllun ariannol

Mae'r DSA yn gronfa fasnachu'n llywodraeth, wedi ei ariannu bron yn gyfan gwbl gan incwm a grëwyd trwy ffioedd ar gyfer ei wasanaethau. Mae'n ofynnol i ni fodloni amcanion ariannol a osodwyd gan Drysorlys EM, sy'n cynnwys adfer costau llawn y gwasanaethau a ddarparwyd, yn cynnwys cyfradd elw ar gyfalaf a defnyddiwr (ROCE) o 3.5 y cant dros gyfnod o bum mlynedd.

Felly, rydym wedi datblygu cynlluniau i gynhyrchu gwarged o £2 miliwn. Mae hyn wedi ei adrodd fel gwarged gweithredol o £11.3 miliwn i ariannu'r taliadau llog ar brydlesau a benthyciadau sy'n daladwy. Mae hyn yn bodloni'r gofyniad i dalu costau cyflawni'r gwasanaethau a'r targed ROCE cronnol.

Ar y cyfan, bydd gwariant yn lleihau yn y flwyddyn nesaf, gan adlewyrchu lleihad mewn gweithgaredd. Mae cynlluniau gwariant wedi eu craffu'n drylwyr i gydbwyso'r gyllideb gyffredinol o fewn incwm a chreu ROCE. Rydym yn ceisio datblygu gweithdrefnau gweithredu gwell a mwy effeithiol wedi eu hanelu at leihau'r sylfaen costau. Mae gwariant wedi ei fonitro a'i reoli'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y lefel o lif.

Gellir crynhoi'r perfformia ariannol arfaethedig fel:

| £miliwn | **Gwirioneddol 2010-11** | **Rhagolwg 2011-12** | **Cynllun 2012-13** |
|---|---|---|---|
| Incwm | 191 | 191 | 186 |
| Gwariant | 187 | 186 | 184 |
| **Gwarged/(diffyg)* cyffredinol** | **4** | **5** | **2** |

*Mae'r gwarged cyffredinol wedi taliadau llog derbyniadwy, llog taladwy, gwarged ar waredu asedau sefydlog a thaliadau difidend.

| **Cynllun buddsoddi** | **Rhagolwg** | **Cynllun** |
|---|---|---|

| | 2011-12 £miliwn | 2012-13 £miliwn |
|---|---|---|
| CPC | 0.2 | 0.0 |
| Prosiectau TGCh | 3.4 | 3.0 |
| Prosiectau ystadau | 3.6 | 1.0 |
| Prawf dehongli peryglon | 0.0 | 3.2 |
| Mân brosiectau | 0.6 | 1.9 |
| **Cyfanswm gwariant** | **7.8** | **9.1** |

Bydd y lefel hwn o fuddsoddiad parhaus yn cael ei ariannu o lifoedd arian gweithredol. Yn ôl y disgwyl rydym wedi lleihau’n benthyciadau gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2011-12.

## Newid busnes

Gofynnwyd nawr i’r DSA gyflawni gwasanaethau craidd mewn dulliau gwahanol, ac i gyflawni gwasanaethau newydd. Er mwyn bodloni’r pum egwyddor allweddol o Bapur Gwyn y llywodraeth ar Wasanaethau Cyhoeddus Agored, mae gennym bellach dîm yn canolbwyntio ar anghenion newid busnes yr asiantaeth. Dilynwch y ddolen http://www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/open-public-services-white-paper

Bydd y tîm newid busnes yn ystyried sefyllfa a heriau ein cyflawniad gwasanaeth, a byddwn yn cynllunio gwelliannau busnes yn y dyfodol, dulliau newydd o weithredu ac arloesi mewn cyflawni i gyflawni ein hamcanion busnes a gweithredu mentrau a pholisïau'r llywodraeth.

## Gwerth am arian (effeithiolrwydd)

Mae cynllun ariannol arfaethedig y DSA yn heriol; mae pwysau costau yn parhau mewn cyfnod o lefelau llai o incwm a chyfnod parhaus o ddim cynnydd mewn ffioedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae’r DSA wedi dod yn fwy effeithiol heb recriwtio unrhyw staff (ac eithrio ar gyfer swyddi rheng flaen), dim cynnydd mewn cyflogau a her barhaus o'r holl eitemau gwariant. Fodd bynnag, mae’r DSA yn wynebu pwysau chwyddiant cynyddol, yn arbennig o ran costau ynni ac eiddo.

Yn 2012-13 byddwn yn gweld manteision llawn mentrau a gwblhawyd yn 2011-12, gan gynnwys gweithredu'r contract Rheolaeth Cyfleusterau Llwyr ac ailstrwythuro swyddfeydd ardal.

I gefnogi rhaglen cynilo’r Llywodraeth, byddwn yn parhau gyda nifer o fentrau i wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- adolygu’r broses recriwtio i gael staff arholi yn y lle cywir gyda’r sgiliau cywir ar yr amser cywir, gan leihau costau gweithredu

- sicrhau y cyflogir staff ym meysydd blaenoriaeth y sefydliad a chyflawni arbedion ble fo'n bosibl
- parhau i fuddsoddi mewn technoleg i gyflawni gwell effeithlonrwydd yn y broses archebu
- sicrhau fod y cynllun buddsoddi yn cynnwys cynlluniau lleihad carbon. Bydd y rhain nid yn unig yn cyfrannu i'r targed carbon, ond hefyd yn lleihau'n costau ynni
- parhau i ddatblygu trefniadau rheoli ein contractau arwyddocaol i sicrhau arbedion pellach, gyda phrosiectau ar waith i ailosod y contractau prawf theori a TGCh
- cymryd rhan yn narpariaeth allanol canolfan gwasanaethau a rennir yr Adran Drafnidiaeth, gan gyflawni'r arbedion cysylltiedig
- sicrhau bod staff yn defnyddio'r dull trafnidiaeth gorau wrth deithio ar fusnes h.y. dim teithiau dosbarth cyntaf
- parhau i ddefnyddio arbenigedd mewnol ac nid ymgynghorwyr na staff dros dro.

Rydym yn cyflwyno a mewnosod proses welliant barhaus i sicrhau yr ystyrir effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r asiantaeth.

## Gweithlu

## Nifer staff

| Cyfateb i lawn amser | Gwirioneddol Mawrth 2011 | Rhagolwg Mawrth 2012 | Cynllun Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| Arholwyr | 1,730 | 1,773 | 1,741 |
| Staff yn wynebu'r cyhoedd | 195 | 196 | 193 |
| Staff cefnogol | 503 | 452 | 449 |
| **Cyfanswm** | **2,428** | **2,421** | **2,383** |

Mae niferoedd staff y DSA yn adlewyrchu nod yr asiantaeth i weithio mewn modd mwy effeithlon. Er mwyn bodloni galw'n cwsmeriaid am brofion, ein nod yw cael y bobl gywir, yn y lle cywir gyda'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir.

Rydym yn parhau i recriwtio fel fo angen i gymryd lle arholwyr sy'n ymddeol neu'n gadael gan fod y bobl hyn yn allweddol i'n prif fusnes o gyflawni profion. Mae hefyd yn bwysig i ni ein bod yn recriwtio ein harholwyr i feysydd ble mae gennym amserau aros uwch, yn arbennig yn ne ddwyrain Lloegr. Bydd hyn yn arwain at newid yn lleoliad ein hadnodd arholwyr gyda lleihad yn y nifer gyfartalog o arholwyr profion car yn yr Alban a gogledd ddwyrain Lloegr, a chanol Lloegr a gogledd Cymru (i lawr 15 ac 14 y cant yn y drefn honno) wedi ei osod yn erbyn cynnydd o 32 y cant yn Llundain a de ddwyrain Lloegr.

Rydym yn parhau i adolygu ein strwythurau gweithredol gan geisio sicrhau bod staff yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth ein gwaith.

## Hyfforddiant a datblygiad staff

Bydd y DSA yn diffinio strategaeth pobl i helpu'r asiantaeth i ddatblygu gweithlu medrus a gwybodus sy'n berthnasol i'w anghenion a gobeithion, gan gydnabod gallu a photensial y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad. Rydym yn cynnal ymroddiad i gael pobl gyda'r sgiliau a medrau cywir,

Rydym yn cynllunio rhaglen prentisiaeth / NVQ DSA yn unol â strategaeth sgiliau'r llywodraeth a byddwn yn darparu lleoliadau profiad gwaith.

## Absenoldeb staff

Byddwn yn parhau i hyrwyddo iechyd a lles ledled ein gweithlu, ac yn archwilio dewisiadau i rannu arfer gorau a mentrau cymorth i gyflogeion ar draws yr Adran Drafnidiaeth a'r gwasanaeth sifil yn gyffredinol.

Byddwn yn parhau i reoli presenoldeb a chefnogi rheolwyr wrth gynyddu achosion yn effeithiol ac mewn modd amserol, yn unol â pholisi/gweithdrefnau a chyfraith cyflogaeth.

Byddwn yn parhau i reoli absenoldebau difrifol yn sensitif ond effeithiol i sicrhau deilliannau boddhaol ar gyfer y DSA ac unigolion.

## Defnydd a chynhyrchiant

Mae arholwyr y DSA yn sylfaenol i gyflawniad y cynllun; maent yn cynhyrchu incwm yr asiantaeth trwy gyflawni profion ymarferol. I sicrhau y gallwn fodloni ein galw cwsmeriaid ac i hysbysu cynllun adnoddau tymor hirach, rydym yn monitro faint o amser mae arholwyr yn treulio yn ennill ffioedd (defnydd). Mae defnydd arholwyr yn amrywiol, gan ei fod wedi ei effeithio gan nifer o ffactorau megis amseriad galw am brofion ond hefyd, ac yn fwyaf nodedig, y tywydd yn pennu ein gallu i gyflawni profion. Ein mesur perfformiad ar gyfer 2012-13 yw i arholwyr dreulio, ar gyfartaledd, 80 y cant o'u hamser yn cyflawni profion. Mae hyn yn gynnydd o fesur 2011-12 o 79 y cant.

## Ymgysylltu â staff

Gweithiodd y DSA yn galed yn 2011-12 ar ymgysylltu â staff ac mae eisoes wedi dechrau cael effaith fesuradwy. Fodd bynnag, mae cryn dipyn i'w wneud o hyd, yn arbennig ar lefel strategol a 'sefydliad cyfan'. Bydd y ffocws ar gyfer 2012-13 ar gynyddu'r lefel o ddealltwriaeth o fewn y sefydliad o beth yw ymgysylltiad a beth fydd yn ysgogi newid gwirioneddol a grymus yn llwyddiannus trwy gydol yr asiantaeth.

## Trawsnewid ystadau

Mae tîm ystadau'r DSA yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw, trwsio, ailwampio, adnewyddu ac amnewid amserol a chost effeithiol i, ac ar, ei ystâd amrywiol o gyfleusterau gweinyddol, hyfforddiant a phrofion. Byddant hefyd yn parhau i wneud cyfraniad i gyflawniad mesurau yn ymwneud â datblygu cynaliadwy.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

Yn 2012-13, bydd gwaith TGCh y DSA wedi ei ddominyddu gan ddarparu datblygiadau a gwelliannau sy'n cefnogi effeithlonrwydd busnes ac yn cyflawni Strategaeth TGCh y llywodraeth. Rydym yn datblygu gwasanaeth rhyngrwyd newydd i gwsmeriaid busnes a fydd yn hwyluso archebion hyfforddwyd a lluosog profion ymarferol ac yn darparu gwybodaeth archebu atodol ar-lein. Bwriadwn wneud gwelliannau sylweddol i'n system archebu rhyngrwyd presennol a fydd yn ei gwneud yn fwy hygyrch a defnyddiol. Ar y cyd, bydd y rhain yn ein helpu i gymryd camau pellach tuag at gyflawni amcanion "digidol yn ddiofyn".

Yn 2012-13, rydym yn bwriadu profi defnydd o ddyfeisiadau tabled i gefnogi gweithio o bell o ran cyflawni profion. Mae gennym weledigaeth y bydd yr holl arholwyr sy'n cyflawni profion ymarferol yn defnyddio cyfrifiadur tabled. Bydd hyn yn eu galluogi i gyflawni pob math o brofion, casglu canlyniadau yn electronig yn y fan a'r lle a gwella gwasanaeth cwsmeriaid trwy anfon gwybodaeth canlyniadau at systemau canolog ar unwaith wedi cwblhau prawf. Bydd hefyd yn galluogi mynediad at systemau mewnol yn fuan ac yn eu galluogi i fod yn gyfredol gyda meysydd busnes sy'n effeithio arnynt. Rydym yn archwilio i ddichonoldeb a fforddiadwyedd y weledigaeth hon.

Mae'r contract gwasanaethau TG presennol yn dod i ben yn Rhagfyr 2014, ac mae angen i ni benodi contractwr newydd erbyn Mehefin 2014 i alluogi'r trosiant. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar y prosiect hwn ac rydym yn gweithio gyda theulu'r Adran Drafnidiaeth i chwilio am synergeddau posibl ar draws nifer o gontractau gwasanaethau TG i gael gwell gwerth ac arbedion trwy ymagwedd gyffredin a grym pwrcasu uwch.

# Lleihau effaith ar newid hinsawdd a'r amgylchedd

## Cyflwyniad

Un o weledigaethau cynllun busnes yr Adran Drafnidiaeth yw "system drafnidiaeth sy'n beiriant ar gyfer twf economaidd, ond un sydd hefyd yn fwy gwyrdd ac yn gwella ansawdd bywyd yn ein cymunedau". I greu system drafnidiaeth fwy gwyrdd, mae angen i'r DSA chwarae rhan mewn cefnogi'r economi werdd a lleihau effeithiau amgylcheddol teithio a chludiant, megis carbon, ansawdd yr aer a sŵn.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd lleihau allyriadau ac wedi mewnosod rheolaeth garbon yn llawn yn ein prosesau caffael, ariannol, stiwardiaeth, llywodraethu a rheoli risg. Yn ystod 2012-13, byddwn yn defnyddio'r holl brosesau hyn i sicrhau bod y strategaethau sylfaenol ar gyfer TGCh, rheoli ystadau a chyflawniad gweithredol yn hyrwyddo lleihad carbon yn weithredol.

## Allyriadau carbon

2012-13 fydd y drydedd flwyddyn yng nghynllun rheoli carbon pum mlynedd y DSA. Yn ystod y flwyddyn i ddod, bwriadwn atgyfnerthu'r tuedd gostyngol hwn trwy:

- gyflwyno mesuryddion trydan deallus i sicrhau'n bod yn gwybod yn union beth ydym yn defnyddio ac yn gallu targedu gwastraff ynni yn effeithiol
- profi'r rhaglen uwchraddio ynysiad toeau canolfannau prawf, rheoliadau goleuo, amseryddion gwresogyddion dŵr ac optimeiddio gwres canolog
- cynnwys gosod paneli solar ffotofoltaidd yn unrhyw waith ailwampio sylweddol
- uwchraddio o leiaf deg o ganolfannau prawf o oleuo fflwrolau i gywerthyddion LED
- profi optimeiddiad foltedd ar raddfa fechan a magneteiddio nwy er mwyn sefydlu arbedion y gellir eu cyflawni
- gweithio gyda'n cyflenwr llogi ceir i werthuso cerbydau trydan i'w llogi yn y tymor byr
- ehangu'r fflyd ceir carbon isel yn lle fflyd lwyd carbon uchel
- targedu recriwtio at ardaloedd ble mae cyfnod aros hir i leihau teithiau arholwyr.

## Dŵr

Rydym yn dechrau gweld cyflenwyr yn gosod mesuryddion i'w darllen o bell a byddwn yn archwilio sut y gallwn ddefnyddio'r dechnoleg hon i reoli ein defnydd o ddŵr gyda'r nod o barhau i gynyddu tuag at leihau faint o ddŵr a ddefnyddir y pen mewn blwyddyn. Bydd y dechneg hon yn ein galluogi i graffu mwy ar batrymau defnydd dŵr.

## Gwastraff ac ailgylchu

Mae rheolaeth gwastraff yn ein safleoedd mawr bellach wedi ei hen sefydlu gyda chyfraddau ailgylchu yn cyrraedd ymhell dros 90 y cant. Yn 2012-13, disgwyliwn annog lleihad pellach mewn gwastraff cyffredinol trwy nifer cynyddol o ddyfeisiadau amlswyddogaethol a lleihad targedig mewn argraffu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n cwmni rheoli cyfleusterau a fydd yn cyflwyno strategaeth gwastraff ar gyfer ein canolfannau prawf ym Medi 2012.

# Gwasanaethau ble mae'r cwsmer yn ganolog a chyfleus

## Cyflwyniad

Mae'r DSA yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar y cwsmer Ein nod yw darparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau posibl a chyflawni lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid, gan sicrhau y

gwrandewir ar gwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol, fel ein bod yn bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau.

## Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid a boddhad cwsmeriaid

Mae gwasanaeth cwsmeriaid arbennig yn ogystal â boddhad cwsmeriaid a busnes yn bwysig i'r DSA. Ein nod yw rhagori ar ddisgwyliadau ein cwsmeriaid a byddwn yn cyflawni ailasesiad llawn ar gyfer y safona Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid yn 2012, gwobr a fu gennym ers 2009-10.

Mae'r rhaglen mewnwelediad cwsmeriaid yn ganolog i ddealltwriaeth anghenion cwsmeriaid ac i fesur eu boddhad gyda lefel ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Byddwn yn cyflawni arolygon mewnol i sgorio lefelau boddhad cwsmeriaid a chwsmeriaid busnes, gan nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder a delio â'r materion a godwyd.

## Derbyniad electronig

Bwriada'r DSA gynyddu derbyniad o'i wasanaethau sydd ar gael trwy sianelau electronig trwy weithredu gwelliannau i'r system archebu rhyngrwyd a sicrhau fod gwasanaethau rhyngrwyd yn hawdd i'w lleoli. Bydd hyn yn cyfrannu i'r agenda digidol yn ddiogyn gan y llywodraeth, i ddarparu mwy o wasanaethau cyhoeddus ar-lein neu trwy ddulliau digidol eraill.

## System archebu rhyngrwyd

Ar hyn o bryd dim ond dros y ffôn neu ffacs all busnesau bwcio hyfforddwyr beiciau modur a galwedigaethol a hyfforddwyr gyrru a gymeradwywyd all archebu profion ymarferol lluosog.

Mae'r DSA wedi bod yn gweithio gyda busnes archebu hyfforddwyr ac ADIs ar system archebu ar-lein newydd i fusnesau y bwriadwn lansio yn ystod 2012. Bydd yn golygu y gellir gwneud yr holl archebion profion gan fusnesau ar-lein fydd yn rhoi'r un gwasanaeth i'n cwsmeriaid busnes â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Rydym wedi cynnwys rhanddeiliaid o gyfnod cynnar ac mae eu hadborth wedi bod yn allweddol o ran gwneud y gwasanaeth yn gyflym a hawdd i'w ddefnyddio. Mae'r cyfleuster yn cael ei gynllunio i ystyried sylwadau gan nifer o ADIs, a rhai sy'n bwcio i hyfforddwyr beiciau modur a galwedigaethol.

## Gweithrediadau cwsmeriaid

Mae cyflawni effeithlonrwydd, gofal ac ansawdd, deall anghenion cwsmeriaid a darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol yn flaenoriaethau i'r DSA. Mae ein tîm gweithrediadau cwsmeriaid yn ceisio ateb 70 y cant o alwadau o fewn 30 eiliad ac ateb negeseuon e-bost neu alwadau ar y cyfle cyntaf. Ein nod yw cadw ein hachrediad safon byd eang gan y Gymdeithas Cysylltiadau Cwsmeriaid. Mae'r tîm hefyd yn cyfrannu i'r derbyniad cynyddol o wasanaeth trwy ffrydiau electronig.

## Rheoli rhanddeiliaid a chyfathrebu allanol

Disgwylir adolygu ymagwedd strategol y DSA i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn 2012-13. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o newidiadau yn yr amgylchedd allanol. Bydd cyfathrebu allanol yn parhau i nodi cyfleoedd i gyfathrebu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid trwy ffrydiau digost yn cynnwys y wasg, cysylltiadau cyhoeddus, partneriaeth a marchnata cilyddol.

## Cyfathrebu digidol

Bydd y DSA yn cadw ei enw da arbennig fel arweinydd yn nefnydd y llywodraeth o gyfryngau cymdeithasol a digidol. Bydd ein sianel YouTube yn parhau i ddarparu clipiau fideo byr ar feysydd perthnasol o fusnes DSA. Mae ein gohebiaeth ddigidol wedi eu hysgogi i raddau helaeth gan ddewisiadau cwsmeriaid a byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau ar Reolau'r Ffordd Fawr a materion perthnasol eraill ar Twitter, Facebook, hysbysiad e-bost a darllenwyr Syndicetiad Syml Iawn (RSS). Dylai'r ymagwedd integredig hon hyrwyddo derbyniad pellach o ffrydiau electronig a hybu'n negeseuon diogelwch ffordd.

Ein nod yw uno'n holl wefannau i un parth y llywodraeth; **GOV.UK** yn 2012-13.

## Rhwymedigaethau allanol

Mae gan y DSA hefyd nifer o fesurau perfformiad i sicrhau'n bod yn bodloni ein rhwymedigaethau i amcanion ehangach y llywodraeth. Ein nod yw gwneud taliadau prydlon i'n cyflenwyr a byddwn yn ymateb mewn modd amserol.